Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 274

Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023

Cofnodion

9.—(1) Rhaid i'r corff cyfrifol gadw cofnod ysgrifenedig ar gyfer pob canlyniad andwyol hysbysadwy y dilynir y weithdrefn gonestrwydd mewn cysylltiad ag ef.

(2) Rhaid i'r cofnod sy'n ofynnol gan baragraff (1) gynnwys pob dogfen a phob darn o ohebiaeth sy'n ymwneud â'r canlyniad andwyol hysbysadwy, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i—

(a) cofnodion o hysbysiadau a roddir o dan reoliadau 4, 5 a 6,

(b) cofnodion o bob ymgais i gysylltu â'r person perthnasol,

(c) unrhyw benderfyniad gan y person perthnasol nad yw am i neb gysylltu ag ef mewn perthynas â'r weithdrefn gonestrwydd, a

(d) pob dogfen sy'n ymwneud â'r ymchwiliad i'r canlyniad andwyol hysbysadwy a'r adolygiad o'r canlyniad andwyol hysbysadwy a gynhelir gan y corff cyfrifol, gan gynnwys unrhyw ymatebion neu adroddiadau interim a ddyroddir gan y corff cyfrifol o dan reoliad 24, 26 neu 31 o Reoliadau 2011.